

ATODIAD 5

YMDRIN Â'R GYLLIDEB YSGOLION YN 2023/24

- Cefndir:** Adroddwyd i gyfarfod 6 Chwefror 2023 o'r Fforwm Cyllideb Ysgolion ar elfennau perthnasol o gyllideb ddrafft y Cyngor ar gyfer 2023/24, lle nodwyd y bydd cynnydd arferol yn y cwantwm ysgolion Gwynedd eleni, gan fod y Cyngor (yn wahanol i rai awdurdodau lleol) yn ariannu chwyddiant, incrementau cyflog, a demograffi.
- Chwyddiant:** Bydd y gyllideb ysgolion yn cynyddu **£6.4m** eleni ar gyfer cynnydd chwyddiant, gan gynnwys chwyddiant tâl athrawon, lleihad cyfraniad Yswiriant Gwladol cyflogwr o 1.25%, a lleihad yn cyfraniad pensiwn cyflogwr ar gyfer gweithwyr APTaCh o 1.2%. Bydd hyn yn cyfarch cynnydd costau cyflogau athrawon o 5% am y 5 mis Ebrill – Awst, sef effaith blwyddyn lawn cytundeb tâl Medi 2022, ac hefyd cost cynnydd pellach o 4% amcangyfrifir ar gyfer cytundeb tâl Medi 2023 (am y 7 mis Medi 2023 – Mawrth 2024). Mae cynnydd cyflog staff ategol Ebrill 2022 hefyd wedi'i gynnwys ac amcan pellach o 5% Ebrill 2023. Wrth gwrs, bydd dyraniadau ysgolion am ynni, gan gynnwys 120% am drydan, hefyd yn codi gyda lefel chwyddiant perthnasol.
- Incrementau Cyflog Staff:** Ychwanegir £573k tuag at gyllideb y Cyngor ar gyfer 2023/24 oherwydd incrementau a lleihad trosiant staff o -£718k.
- Demograffi (niferoedd disgyblion):** Bydd y gyllideb ysgolion yn cynyddu eleni oherwydd yr addasiadau "demograffi" arferol, sy'n deillio o newidiadau mewn niferoedd disgyblion. Defnyddir gwir nifer disgyblion Medi 2022 i gyfrifo dyraniadau 2023/24. Mae'r sefyllfa yn gwahaniaethu o ysgol i ysgol, ond ar y cyfan mae effaith cynnydd niferoedd disgyblion yn golygu y byddai'r gyllideb ysgolion yn ei gyfanrwydd yn cynyddu **£229k**, sy'n cynnwys lleihad -£135k i'r sector Gynradd, cynnydd +£49k i'r sector Uwchradd a chynnydd yn y sector Arbennig o +£315k. Bydd ysgolion unigol yn disgwyl cynnydd / gostyngiad yn eu dyraniadau cymesur â'r newid mewn niferoedd disgyblion yn yr ysgolion.
- Bidiau Argymhellir Cymeradwyo:** Gweler yn y rhan bidiau (Atodiad 2) o'r adroddiad hwn fod argymhelliad i gytuno i ariannu 'bidiau' parhaol 2023/24 i'r Adran Addysg gwerth cyfanswm o **£286k**, er mwyn ariannu cost uwch darparu cinio cynradd/arbennig.

6. **Arbedion a Thoriadau 2023/24 a 2024/25:** Ers i'r Cyngor, ar 5 Mawrth 2015 fel rhan o 'Her Gwynedd', benderfynu ar darged arbedion £4.3m wrth osod cyllideb 2015/16, ni ofynnwyd i ysgolion Gwynedd am unrhyw arbedion newydd ychwanegol. Ers 2015/16, bydd Cyngor Gwynedd wedi gwireddu £33.5m o gynlluniau arbedion, gyda £4.3m ohono (13% o'r arbedion) wedi'i gynaeafu o'r ysgolion (sy'n cynrychioli 30% o wariant net y Cyngor). Ond erbyn 2023/24 mae'n anorfod bod rhaid gweithredu arbedion a thoriadau ar yr ysgolion. Yr argymhelliad yw i gapio y toriad i uchafswm o 3% ar ysgol prif lif unigol a dim toriad ar y sector arbennig. Hefyd, bydd y toriad yn cael ei weithredu dros ddwy flynedd ariannol, sydd yn cyd-fynd efo blwyddyn academaidd ysgol. Mae cyfanswm y toriad yn £1.966m ac yn rhannu £1.147m (7/12ed) yn 2023/24 ac yna £0.819m (5/12ed) yn 2024/25.

7. **Grantiau Penodol Addysg:** Ymddengys y bydd grantiau penodol gan Lywodraeth Cymru yn parhau ym maes Addysg yn 2023/24 ar lefel tebyg i 2022/23.

8. **Casgliad Cyffredinol:** Wedi cymryd yr holl ffactorau uchod i ystyriaeth, bydd y gyllideb ysgolion yn uwch yn 2023/24 o'i gymharu gyda 2022/23.